

“Bywydau Diogelach, Perthnasoedd Iachach”

Mynd i'r afael â Cham-drin Domestig, Trais Rhywiol a Thrais yn erbyn Menywod yn ein Cymunedau

Cynllun Cyflawni Strategol 2018/19

Mae'r Cynllun Cyflawni Strategol hwn yn amlinellu sut bydd Gweithrediaeth Ddiogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn "Bywydau Diogelach, Perthnasoedd Iachach", sef y strategaeth ranbarthol ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod.

Bydd chwe blaenoriaeth strategol y cynllun cyflawni hwn yn cyfrannu at atal cam-drin domestig, trais rhywiol, a thrais yn erbyn menywod, at ddiogelu dioddefwyr ac at gynorthwyo pawb y mae'r uchod yn effeithio arnynt.

Mae'r cynllun hwn yn ddogfen weithio sy'n amlinellu'r ymrwymiad i weithgarwch y 12 mis nesaf, a chaiff ei adolygu bob blwyddyn i adlewyrchu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt gan y Weithrediaeth Ddiogelu Ranbarthol.

Bydd Grŵp Strategol Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol yn gyfrifol am weithredu a monitro'r Cynllun Cyflawni Strategol, gan adrodd i'r Weithrediaeth Ddiogelu Ranbarthol a phartneriaethau lleol a rhanbarthol allweddol eraill er mwyn sicrhau y cyflawnir cyfrifoldebau statudol yn effeithiol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Mae'r Cynllun Cyflawni Strategol ar gyfer 2018/19 yn cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â;

- Galluogwyr a chynhalwyr newid
- Ymgysylltu â goroeswyr
- Arweinyddiaeth a Llywodraethu
- Blaenoriaethau Strategol

Blaenoriaethau i'w gweithredu 2018/19

Galluogwyr a Chynhalwyr Newid

Wrth ddatblygu'r strategaeth, nododd y rhanbarth bedair elfen y gellir eu hystyried yn alluogwyr a chynhalwyr newid a gwelliant. Maent yn ymwneud â gwella ac integreiddio prosesau craidd i hwyluso datblygiad ffyrdd cyson a chydlynol o wella canlyniadau ar gyfer unigolion a'u teuluoedd sy'n destun cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod.

Yn ystod 2018/19 byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni dau o'r galluogwyr hyn;

- **Myfyrion ac Adolygu – sefydlu mecanwaith ar gyfer monitro a gwerthuso'r strategaeth a'i heffaith**
- **Ymgynghori – datblygu a darparu adnoddau ar gyfer fframwaith ymgysylltu â goroeswyr rhanbarthol, gan atgyfnerthu a gwella mecanweithiau presennol ac ymchwilio i ffyrdd creadigol y gall unigolion ymgysylltu a chyfrannu**

Ymgysylltu â goroeswyr

Mae ein strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol cydweithredu â goroeswyr a defnyddwyr gwasanaeth sydd yn 'arbenigwyr drwy brofiad' o ran beth sydd wedi gweithio iddyn nhw, eu llwybrau drwy'r gwasanaethau a pha mor hawdd (neu anodd) fu canfod y gwasanaeth priodol a symud tuag at annibyniaeth a rhyddid o gamdriniaeth.

Heb fewnbwn a barn goroeswyr ni allwn siapio'r gwasanaeth a ddarperir i fod yn ymatebol i anghenion unigol dioddefwyr a goroeswyr, ac mae eu canfyddiadau yn darparu cyfle parhaus i lunio, mireinio a gwella gwasanaethau.

Er y cydnabyddir ymagweddau presennol ac arfaethedig mewn perthynas ag ymgysylltu â goroeswyr yn y rhanbarth, mae'r strategaeth yn cydnabod nad oes yna fecanwaith cyson a chydlynol i rai sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru allu clywed lleisiau goroeswyr. O'r herwydd rydym yn ymrwymedig i wrando ar leisiau a phrofiadau goroeswyr, ac i alluogi hynny, er mwyn llunio'r broses o wneud penderfyniadau a gwella arferion yn y rhanbarth;

Byddwn yn	Camau angenrheidiol	Canlyniadau bwriadedig	Arweinydd Is-grŵp	Mesur / Dangosyddion	Amserlenni
<p>Datblygu fframwaith ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr</p>	<p>Sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried ymgysylltu â goroeswyr, gyda rhanddeiliaid a goroeswyr i fod yn aelodau ohono</p> <p>Mapio mecanweithiau a grwpiau ymgysylltu â goroeswyr presennol yn y rhanbarth (meddwl y tu allan i fecanweithiau VAWDASV presennol)</p> <p>Adolygu unrhyw fframweithiau / arferion da presennol sy'n ymwneud ag ymgysylltu â goroeswyr</p>	<p>Fframwaith rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr VAWDASV</p> <p>Mae gan oroswyr fecanwaith cyson, cydlynol ar gyfer cael eu clywed ac i lywio gwelliannau o ran polisi ac ymarfer.</p>	<p>Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu a Chyfathrebu (Rachel Eagles yn arwain)</p>	<p>Fframwaith ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr wedi'i sefydlu i Ganolbarth a Gorllewin Cymru</p>	<p>I'w benderfynu gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen – Mawrth 2019 fan hwyraf</p>

	<p>Ymgynghori â goroeswyr i ddeall yn well sut y maent am i bobl ymgysylltu â nhw ac unrhyw rwystrau ychwanegol i ymgysylltu</p> <p>Drafftio fframwaith argymelledig ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr, i Grŵp Strategol VAWDASV gytuno arno – y fframwaith i ystyried sut gallwn atgyfnerthu a gwella mecanweithiau presennol ac ymchwilio i ffyrdd creadigol y gall unigolion ymgysylltu a chyfrannu</p>				
--	--	--	--	--	--

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i atgyfnerthu trefniadau presennol ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth o ran cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod, gan sicrhau bod gennym strwythur cydlynol sy'n darparu eglurder a chyfeiriad ar gyfer y rhanbarth, a byddwn yn gwneud hyn drwy;

Byddwn yn	Camau angenrheidiol	Canlyniadau bwriadedig	Arweinydd Is-grŵp	Mesur / Dangosydd	Amserlen
Adolygu trefniadau llywodraethu presennol yn cynnwys aelodaeth a chynrychiolaeth, strwythurau alinio ac adrodd i fyrddau rhanbarthol a lleol allweddol eraill ac atgyfnerthu cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod fel thema drawsffiniol y Weithrediaeth Ddiogelu.	Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Grŵp Strategol Nodi a chytuno ar strwythurau adrodd lleol a rhanbarthol Adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod fel thema drawsffiniol yn y Weithrediaeth Ddiogelu a gwneud argymhellion i'w	Fframwaith llywodraethu cadarn ar gyfer darparu a monitro'r strategaeth ranbarthol Aelodaeth a chynrychiolaeth priodol ar y Grŵp Strategol a'r grwpiau gorchwyl a gorffen perthnasol Strwythurau adrodd cytunedig i Fyrddau lleol a rhanbarthol allweddol eraill	Avril Bracey, Cadeirydd y Grŵp Strategol / Ymgynghorydd Rhanbarthol	Cylch Gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Grŵp Strategol Cylch Gorchwyl cytunedig ar gyfer yr holl is-grwpiau / grwpiau gorchwyl a gorffen Strwythurau adrodd rhanbarthol a lleol clir	Rhagfyr 2018

	cryfhau e.e. cynrychiolaeth, trefniadau adrodd				
Penodi ymgynghorydd rhanbarthol ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod	Recriwtio ymgynghorydd rhanbarthol ar gyfer cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod	Ymgynghorydd Rhanbarthol yn ei swydd er mwyn ysgogi gweithrediad y strategaeth hon	Avril Bracey, Cadeirydd y Grŵp Strategol	Penodi i'r swydd	Medi 2018
Sefydlu mecanwaith ar gyfer monitro a gwerthuso'r strategaeth a'i heffaith	Datblygu canlyniadau a dangosyddion rhanbarthol i fesur cynnydd y strategaeth hon Nodi aliniadau rhwng canlyniadau a dangosyddion y strategaeth hon a rhaglenni gwaith rhanbarthol / lleol eraill er mwyn integreiddio a chadarnhau mesurau llwyddiant	Cytuno ar set o ganlyniadau a dangosyddion sy'n ategu ac yn cyd-fynd â rhaglenni gwaith ehangach yn y rhanbarth a fframweithiau cenedlaethol sy'n mesur cynnydd a llwyddiant y strategaeth hon	Ymgynghorydd Rhanbarthol	Cytuno ar set o ganlyniadau a dangosyddion sy'n ategu ac yn cyd-fynd â rhaglenni gwaith ehangach yn y rhanbarth a fframweithiau cenedlaethol sy'n mesur cynnydd a llwyddiant y strategaeth hon	Mawrth 2019

	lle y bo'n berthnasol				
--	-----------------------	--	--	--	--

Blaenoriaeth Strategol 1 – Gwella gwybodaeth a chynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau tuag at gydraddoldeb a cham-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod ymysg dinasyddion Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Byddwn yn	Camau angenrheidiol	Canlyniad bwriadedig ar gyfer Blwyddyn 1	Arweinydd Is-grŵp	Mesur / Dangosydd	Amserlen
Datblygu strategaeth gyfathrebu glir ar gyfer cydraddoldeb a cham-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod, wedi'i llywio gan oroeswyr a rhanddeiliaid a fydd yn cefnogi negeseuon cydlynol a chyson ar gyfer unigolion, teuluoedd, pobl broffesiynol, cyflogwyr a chymunedau.	<p>Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyfathrebu VAWDASV i gyd-fynd ag is-grŵp Ymgysylltu a Chyfathrebu y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a fydd yn;</p> <p>Adolygu cynlluniau cyfathrebu VAWDASV a chydraddoldeb presennol y rhanbarth</p> <p>Mapio'r dystiolaeth / adnoddau sydd ar gael i lywio ymagwedd y Strategaeth Gyfathrebu ranbarthol</p>	<p>Strategaeth gyfathrebu ranbarthol; ymagwedd ranbarthol gytunedig at gyfathrebu a chynyddu ymwybyddiaeth o VAWDASV a chydraddoldeb</p> <p>Negeseuon rhanbarthol cyson ar gyfer VAWDASV a chydraddoldeb</p> <p>Strategaeth gyfathrebu sydd wedi'i llywio a'i</p>	Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymgysylltu a Chyfathrebu (Rachel Eagles yn arwain)	Strategaeth Gyfathrebu gytunedig ranbarthol ar gyfer Cydraddoldeb a VAWDASV	I'w benderfynu gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen – Mawrth 2019 fan hwyraf

	Datblygu calendr dyddiadau allweddol VAWDASV a chydraddoldeb	chefnogi gan dystiolaeth ac adnoddau			
	Nodi ymgyrchoedd, themâu a negeseuon allweddol cydraddoldeb a VAWDASV				

Blaenoriaeth Strategol 2: Cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn annerbyniol

Byddwn yn	Camau angenrheidiol	Canlyniad bwriadedig	Arweinydd Is-grŵp	Mesur Dangosydd	Amserlen
Cynnal dadansoddiad llawn o addysg perthnasoedd iach mewn sefydliadau addysg ffurfiol / anffurfiol ar draws y rhanbarth.	Rheolwyr Diogelu Addysg o'r pedwar Awdurdod Lleol i gynnal ymarfer mapio a dadansoddi gyda chymorth yr Ymgynghorydd VAWDASV Rhanbarthol	Adroddiad dadansoddi llawn ac argymhellion i'r Grŵp Strategol a'r Weithrediaeth Ddiogelu	Alastair Birch (fel y cynrychiolydd Addysg ar y grŵp Strategol)	Dadansoddiad ac argymhellion	I'w benderfynu gan yr Is-grŵp – Mawrth 2019 fan hwyraf
Cytuno ar fframwaith monitro fydd yn galluogi'r rhanbarth i fodloni gofynion adrodd sydd yn rhan o'r Ddeddf.	Rheolwyr Diogelu Addysg o'r pedwar Awdurdod Lleol i ddatblygu fframwaith monitro	Fframwaith monitro ar waith i alluogi'r rhanbarth i gydymffurfio â'r gofynion adrodd yn y Ddeddf	Alastair Birch (fel y cynrychiolydd Addysg ar y grŵp Strategol)	Adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru am ymatebion o fewn Addysg i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf	I'w benderfynu gan yr Is-grŵp – Mawrth 2019 fan hwyraf

Blaenoriaeth Strategol 3: Cynyddu'r ffocws ar sicrhau bod cyflawnwyr yn atebol, a darparu cyfleoedd i ddeall eu hymddygiad a chanlyniadau eu hymddygiad yn seiliedig ar ddiogelwch y dioddefwr

Byddwn yn	Camau angenrheidiol	Canlyniad bwriadedig ar gyfer Blwyddyn 1	Arweinydd Is-grŵp	Mesurau / Dangosyddion	Amserlen
<p>Ystyried yr hyn a ddysgir ac effeithlonrwydd dulliau ac ymyriadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn y rhanbarth</p> <p>Deall yn well sut mae dulliau presennol yn cysylltu â'i gilydd a chyfleoedd i wella gweithio mewn partneriaeth</p> <p>Canfod cyfleoedd i ymyrryd yn gynharach â chyflawnwyr a rhai sy'n arddangos</p>	<p>Bydd rhanddeiliaid allweddol ar draws y sector statudol a gwirfoddol yn datblygu cynllun gweithredu i ddatblygu'r camau gweithredu hyn ar ran y Grŵp Strategol</p> <p>Y flaenoriaeth ar gyfer 2018/19 fydd;</p> <p>Mapio ymyriadau presennol a'u heffeithiolrwydd, pwerau awdurdodau statudol, dysgu, partneriaethau a</p>	<p>Deall yn well y dulliau a'r ymyriadau presennol ar gyfer cyflawnwyr VAWDASV er mwyn llywio gwaith y dyfodol</p> <p>Cyfleoedd wedi'u canfod i ymyrryd yn gynharach â chyflawnwyr a rhai sy'n arddangos ymddygiadau camdriniol.</p>	Christine Harley	Adroddiad mapio yn dadansoddi ymyriadau presennol a'u heffeithiolrwydd, pwerau awdurdodau statudol, dysgu, partneriaethau a nodi cyfleoedd i ymyrryd ynghynt	I'w benderfynu gan yr Is-grŵp – Mawrth 2019 fan hwyraf

ymddygiadau camdriniol.	nodi cyfleoedd i ymyrryd ynghynt				
-------------------------	----------------------------------	--	--	--	--

Blaenoriaeth Strategol 4: Sicrhau bod ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth integredig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru

Byddwn yn	Camau angenrheidiol	Canlyniad bwriadedig	Arweinydd Is-grŵp	Mesur / Dangosydd	Amserlen
Ystyried dysgu ac effeithiolrwydd modelau atal ac ymyrraeth gynnar yn y gymuned sy'n gweithredu ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru	Adolygiad cyflym o'r modelau atal ac ymyrraeth gynnar VAWDASV sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y gymuned Adolygiad llenyddiaeth o'r dystiolaeth a'r arfer da sy'n ymwneud â modelau atal ac ymyrraeth gynnar VAWDASV yn y gymuned	Dealltwriaeth o'r modelau atal ac ymyrraeth gynnar presennol yn y gymuned Arfer da a sylfaen dystiolaeth ar gyfer atal ac ymyrraeth gynnar yn y gymuned	Avril Bracey wedi gweithredu ers Grŵp Strategol 4/7/2018 i wneud cynnydd o ran y cam gweithredu hwn gydag arweinwyr y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Adolygiad cyflym wedi'i gynnal o'r modelau atal ac ymyrraeth gynnar presennol yn y gymuned sy'n bodoli ar draws y rhanbarth Adolygiad llenyddiaeth ac arfer da wedi'i gwblhau Argymhellion i'r Grŵp Strategol er mwyn llywio'r model atal ac ymyrraeth gynnar yn y	I'w benderfynu gan yr Is-grŵp – Mawrth 2019 fan hwyraf

				gymuned yn y rhanbarth	
Adolygu trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a chraffu ar gyfer Adolygiadau Dynladdiadau Cam-drin Domestig	Adolygu trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a chraffu presennol ar gyfer Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig a nodi cyfleoedd i alinio â phrosesau eraill adolygu diogelu	Dull gweithredu cyson ar draws adolygiadau diogelu	Grŵp Adolygu Arferion – Bwrdd Diogelu Rhanbarthol	Ymagwedd ranbarthol gytunedig ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd a chraffu ar Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig	Gorffennaf 2018
Ymgorffori cam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod mewn trothwyau diogelu rhanbarthol a sicrhau ymateb cyson i gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod ar draws y rhanbarth	Gwahoddir rhanddeiliaid VAWDASV i adolygu dogfennau trothwy presennol er mwyn gwella dealltwriaeth a chynhwysiant ynghylch VAWDASV fel diogelu	Ymateb diogelu cyson i gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod ar draws y rhanbarth	Grŵp Gorchwyl a Gorffen / Is-grŵp perthnasol y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol	VAWDASV wedi'i gynnwys yn y trothwyau diogelu rhanbarthol	Gorffennaf 2018

Blaenoriaeth Strategol 5: Gweithwyr proffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Byddwn yn	Camau angenrheidiol	Canlyniadau bwriadedig ar gyfer Blwyddyn 1	Arweinydd Is-grŵp	Mesur Dangosydd /	Amserlenni
Ymgorffori'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol mewn cynlluniau datblygu gweithlu strategol rhanbarthol	Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol i'w gynnwys yn strwythurau cynllunio'r gweithlu strategol rhanbarthol e.e. Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol	Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol wedi'i sefydlu fel blaenoriaeth datblygu gweithlu strategol	Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol VAWDASV	Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol wedi'i gynnwys yn yr holl gynlluniau datblygu gweithlu strategol perthnasol	I'w benderfynu gan Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol VAWDASV
Goruchwylio, monitro ac adolygu sut y gweithredir y Fframwaith yn rhanbarthol gan	Crynhoi cynlluniau hyfforddiant unigol awdurdodau perthnasol a datblygu cynllun	Ymagwedd ranbarthol gytunedig at weithredu'r Fframwaith	Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol VAWDASV	Nifer a % y gweithwyr proffesiynol priodol sy'n cwblhau grwpiau perthnasol y	I'w benderfynu gan Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol VAWDASV

<p>sicrhau cydymffurfiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol mewn awdurdodau perthnasol, a chefnogi'r sector arbenigol i gyflawni Grwpiau 2-5</p>	<p>rhanbarthol troswaol</p>	<p>Hyfforddiant Cenedlaethol</p> <p>Gweithredu Grŵp 1 i staff ar draws Awdurdodau Perthnasol</p> <p>Gweithredu Grŵp 6 ar gyfer arweinwyr a rheolwyr mewn awdurdodau perthnasol</p>		<p>Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol</p> <p>% y gweithwyr proffesiynol sy'n dweud bod mwy o ddealltwriaeth a gwybodaeth ganddynt am y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol</p>	
<p>Sicrhau bod rhaglen o hyfforddiant amlasiantaeth ar gael yn rhanbarthol i'r holl weithwyr proffesiynol mewn perthynas â phob math o gam-drin domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn menywod.</p>	<p>Mapio'r hyfforddiant VAWDASV sydd ar gael yn y rhanbarthol ar hyn o bryd – awdurdodau perthnasol a rhanddeiliaid ehangach e.e. partneriaid cyfiawnder troseddol, darparwyr tai, sefydliadau cymunedol.</p>	<p>Dealltwriaeth o'r hyfforddiant VAWDASV amlasiantaeth sydd yn y rhanbarthol ar hyn o bryd er mwyn llywio cynlluniau hyfforddiant rhanbarthol</p>	<p>Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol VAWDASV</p>		<p>I'w benderfynu gan Grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol VAWDASV</p>
<p>Sicrhau partneriaethau strategol a</p>	<p>Sefydlu Cylch Gorchwyl ar gyfer Is-grŵp Hyfforddiant</p>	<p>Cynrychiolaeth briodol ar bartneriaethau</p>	<p>Is-grŵp Hyfforddiant</p>	<p>Is-grŵp hyfforddiant rhanbarthol</p>	<p>Medi 2018</p>

<p>gweithredol priodol er mwyn cefnogi gweithredu'r Fframwaith yn effeithiol</p>	<p>Rhanbarthol VAWDASV, gan sicrhau bod aelodaeth a chynrychiolaeth priodol ledled y sector VAWDASV statudol ac arbenigol</p> <p>Cytuno ar linellau adrodd clir o Is-grŵp Hyfforddiant Rhanbarthol VAWDASV i'r Grŵp Strategol VAWDASV rhanbarthol a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol</p>	<p>strategol a gweithredol</p> <p>Llinellau adrodd clir i Grŵp Strategol VAWDASV a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol</p>	<p>Rhanbarthol VAWDASV</p>	<p>VAWDASV wedi'i sefydlu</p> <p>Wedi cytuno ar gylch gorchwyl</p> <p>Strwythurau adrodd a bennwyd yn glir o is-grŵp hyfforddiant rhanbarthol VAWDASV i Grŵp Strategol VAWDASV a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol</p>	
--	---	--	----------------------------	--	--

Blaenoriaeth Strategol 6: Darparu mynediad cyfartal i ddioddefwyr i wasanaethau o ansawdd uchel sydd wedi eu harwain gan anghenion, sydd wedi eu seilio ar gryfderau ac sy'n ymatebol i rywedd ar draws y rhanbarth.

Byddwn yn	Camau angenrheidiol	Canlyniad bwriadedig	Arweinydd Is-grŵp	Mesur Dangosydd /	Amserlen
<p>Adolygu trefniadau comisiynu presennol i lywio'r gwaith o ddatblygu strategaeth</p>	<p>Adolygu trefniadau comisiynu presennol ar gyfer yr holl wasanaethau gan VAWDASV</p>	<p>Dealltwriaeth glir o drefniadau comisiynu presennol VAWDASV ar draws</p>	<p>Avril Bracey wedi gweithredu ers Grŵp Strategol 4/7/2018 i wneud cynnydd o</p>	<p>Dadansoddi'r trefniadau comisiynu presennol ac argymhellion i lywio</p>	<p>I'w benderfynu gan yr arweinydd /</p>

<p>gomisiynu "un gwasanaeth cyhoeddus" unedig ac integredig</p>	<p>gynnwys gwasanaethau i oedolion sy'n oroeswyr, plant a phobl ifanc a chyflawnwyr er mwyn llywio datblygiad strategaeth gomisiynu ranbarthol "un gwasanaeth cyhoeddus" ar gyfer VAWDASV</p>	<p>Canolbarth a Gorllewin Cymru</p>	<p>ran y cam gweithredu hwn</p>	<p>datblygiad strategaeth gomisiynu integredig</p>	<p>y grŵp gorchwyl a gorffen perthnasol</p>
---	---	-------------------------------------	---------------------------------	--	---